Comisiwn Archwilio
Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol
Estyn
Comisiwn Gofal Iechyd
Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi
Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi
Arolygiaeth Gwasanae Prawf ei Mawrhydi
Swyddfa Safonau mewn Addysg
Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru

Archwiliad ar y Cyd o Dimau Troseddu Ieuenctid Cymru a Lloegr

Adroddiad ar: Dîm Troseddu Ieuenctid Caerdydd

ISBN 1 84473 165 0

2004

Rhagair

Dyma un o'r gyfres gyntaf o adroddiadau archwiliad i'w cyhoeddi ar archwiliad o Dimau Troseddu Ieuenctid ar draws Cymru a Lloegr, a'r ail yng Nghymru.

Canfyddwyd Tîm Troseddu Ieuenctid lle'r oedd y grŵp llywio newydd yn ymddangos fel pe bai'n dangos arwyddion o ddarparu'r cyfeiriad strategol a goruchwyliaeth gorfforaethol ar gyfer y tîm nas gwelwyd yn flaenorol. Elfen gadarnhaol hefyd oedd bod Tîm Troseddu Ieuenctid Caerdydd yn ymwneud â datblygu rhaglenni ar draws yr awdurdod lleol i atal plant a phobl ifanc rhag ymhel â thor-cyfraith.

Roedd yno lawer o feysydd fodd bynnag yr oedd angen eu gwella. Dylid rhoi sylw ar unwaith i asesu a goruchwylio cynllunio ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu, yn arbennig mewn perthynas â risg o niwed. Mae angen i staff Tîm Troseddu Ieuenctid fabwysiadu dull gweithredu o reoli achosion, cael mynediad at wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc sydd o dan eu goruchwyliaeth o dimau eraill a gwasanaethau prif ffrwd eraill. Nid oedd digon o ymyriadau yn mynd i'r afael yn benodol ag anghenion merched neu fenywod ifanc, a phlant a phobl ifanc anabl neu rai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig. Roedd angen datblygiad sylweddol hefyd ar waith gyda rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, er bod y gwaith yma bellach wedi cychwyn.

Felly ein hasesiad cyffredinol yw bod angen gwelliannau sylweddol. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion i gynorthwyo Tîm Troseddu Ieuenctid Caerdydd wrth symud yr agenda yma yn ei blaen. Maent eisoes wedi dangos eu bod yn ymwybodol iawn o'r materion dan sylw a hyderwn y byddant yn gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael; â'r materion hyn.

Andrew Bridges
Prif Arolygydd Prawf ei Mawrhydi

Cynnwys

		Tudalen
	Cydnabyddiaeth	4
	Geirfa	5
	Cyflwyniad	6
	Prif gasgliadau	6
	Trosolwg	12
1.	TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH	14
2.	PLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU	23
3.	PLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU	27
4.	GWEITHIO GYDA RHIENI/GOFALWYR	32
5.	GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR	35
	Archwiliad ar y Cyd o Dimau Troseddau Ieuenctid	39
	Trefniadau'r Archwiliad	41
	Dull sgorio	42
	Camau nesaf	43

Cydnabyddiaeth

Hoffem ddiolch i holl staff Tîm Troseddu Ieuenctid Caerdydd, aelodau Grŵp Llywio'r Tîm Troseddu Ieuenctid a sefydliadau partner am eu cymorth wrth sicrhau bod yr archwiliad wedi'i gynnal yn effeithiol.

Hoffem ddiolch yn arbennig i Ingrid Masmeyer am eu hymroddiad i'r archwiliad.

Arolygydd yn Arwain	*Sheila Booth Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru*
Arolygwyr	*Maddie Blackburn Comisiwn Gofal Iechyd, Linda Howells Estyn, Kam Kaur Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi, John Llewellyn Thomas Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, Ian Macfadyen Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi, Mike Mullis Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi, Joe Simpson Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi*
Staff Cefnogi	*Grace Dickin, Rachel Dwyer, Junior Rhone, Natalie Dewsnap*
Rheolwr Rhaglen	*Liz Calderbank Arolygiaeth Gwasanaeth Prawf ei Mawrhydi*
Asesydd Ardal	*Kathleen Harris*

Geirfa

ASSET	Dull asesu wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
CAMHS	Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion
CEO	Prif Swyddog Gweithredol
CPN	Nyrs Seiciatrig Cymunedol
CSCI	Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol
DTO	Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant
Estyn	Arolygiaeth ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
EPQA	Archwiliad Ansawdd Arfer Effeithiol
ETE	Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg
EWO	Swyddog Lles Addysg
HMIC	Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi
ISSP	Rhaglen Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys
Safonau Cenedlaethol	Safonau Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
NHS	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
OCN	Rhwydwaith Coleg Agored
Ofsted	Swyddfa Safonau mewn Addysg
PSR	Adroddiad Cyn-Dedfrydu
SDQ	Holiadur Cryfderau ac Anawsterau dull sgrinio iechyd meddwl/emosiynol
SLA	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
SMART	Penodol, Mesuradwy, Cyraeddadwy, Realistig ac Amserol
SSIW	Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru
VLO	Swyddog Cyswllt Dioddefwyr
YIP	Prosiect Cynnwys Ieuenctid
YJB	Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
YMCA	Cymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc
YOIS	System Wybodaeth Troseddwyr Ifanc
YOT	Tîm Troseddu Ieuenctid

Cyflwyniad

Yn y tair blynedd diwethaf, ers gweithredu gwelliannau cyfiawnder ieuenctid cenedlaethol yn Ebrill 2000, bu newid sylweddol. Mae YOTau wedi'u sefydlu drwy Gymru a Loegr. Mae gorchmynion ac ymyriadau newydd wedi'u cyflwyno, system asesu gyffredin wedi'i datblygu a mwy o bwyslais wedi'i roi ar wahanol ddulliau o weithredu, gan gynnwys gwaith ataliol, cyfiawnder adferol ac anghenion dioddefwyr. Mae llawer wedi'i gyflawni.

Dyma'r rhaglen archwiliad lawn gyntaf i archwilio'r maes newydd hwn o waith. Rydym yn derbyn y bydd YOTau yn amrywio o ran eu datblygiad, gan adlewyrchu amgylchiadau ac anghenion lleol. Cyhyd ag y bo'n bosibl, mae'r fethodoleg a dull sgorio'r archwiliad wedi'u cynllunio i gymryd y gwahanol gyfnodau datblygu hyn i ystyriaeth.

Mae pwyslais wedi'i roi ar ddau faes craidd:

- trefniadau rheoli a phartneriaeth, yn cynnwys rôl a swyddogaeth y bwrdd lleol
- gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Mae'r meysydd hyn yn hanfodol i sicrhau perfformiad boddhaol a chynaladwy. Meysydd eraill yr edrychwyd arnynt gan y tîm archwilio oedd atal troseddu, gweithio gyda rhieni/gofalwyr a gweithio gyda dioddefwyr.

Yn ystod y cyfnod cychwynnol hwn dim ond ychydig o YOTau a ddisgwylir fydd yn perfformio'n foddhaol ar draws pob un o'r pum maes a archwilir, ond disgwylir y bydd gan y mwyafrif drefniadau rheoli ac arferion gwaith cadarn gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu.

Prif gasgliadau

Trefniadau rheoli a phartneriaeth

- Yn ddiweddar disodlwyd Grŵp Llywio gwreiddiol y YOT gan grŵp newydd, dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gydag awdurdod wedi'i ddirpwryo gan y Prif Swyddog Gweithredol.
- Roedd arwyddion cynnar yn awgrymu y byddai Grŵp Llywio newydd y YOT yn darparu'r cyfeiriad strategol a'r goruchwyliaeth corfforaethol i'r YOT a fu'n ddiffygiol yn flaenorol.
- Ni oedd aelodaeth o'r YOT yn cydymffurfio gyda deddfwriaeth ac arweiniad, er bod angen rhoi ystyriaeth bellach i rôl a phrofiad rhai o'r staff a secondiwyd.
- Ni chafwyd patrwm cyson o oruchwyliaeth staff, naill ai ar lefel rheolwyr neu ar draws timau o fewn y YOT.
- Ni roddwyd sylw digonol i anghenion plant a phobl ifanc a waharddwyd o'r ysgol. Ymgymerwyd â llawer o'r gwaith gan asiantaethau gwirfoddol, yn hytrach na thrwy ymwneud uniongyrchol gan yr adran addysg.
- Roedd morâl yn amrywio ar draws y YOT ac roedd yno densiynau rhwng grwpiau staff gwahanol.

Plant a phobl ifanc mewn risg o droseddu

- Roedd y YOT yn ymwneud â datblygiad strategol rhaglenni ataliol ar draws yr awdurdod lleol ac roedd yn darparu nifer o ymyriadau wedi eu targedu.
- Roedd hefyd yn cyfrannu at ddull gweithredu aml-asiantaeth er mwyn adnabod plant a phobl ifanc oedd mewn risg o droseddu.
- Roedd angen datblygu darpariaeth ar gyfer merched a menywod ifanc, a phlant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd y rhaglenni allweddol yn destun craffu a/neu gwerthuso allanol.

Plant a phobl ifanc sy'n troseddu

- Er bod cyfraddau cwblhau'r asesiad cychwynnol wedi cynyddu'n sylweddol, nid oedd yr arolwg a'r ASSETau terfynol mor gyflawn ag yr oedd yn briodol. Roedd angen ystyriaeth fuan hefyd i'r broses ar gyfer asesu a monitro'r risg o niwed.
- Roedd angen mwy o ystyriaeth i fewnbwn gan sefydliadau partner i'r ASSET; yn arbennig gan addysg a chan iechyd, a oedd yn defnyddio eu harf asesu eu hunain.

- Roedd cwblhau ac ansawdd cynlluniau yn gofyn am fwy o oruchwyliaeth a datblygu fformat cyffredin.
- Er bod ymyriadau priodol yn cael eu cynnal yn rheolaidd, roedd nifer o staff yn ymddangos yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau a ddarperir gan dimau eraill. Nid oed ddull gweithredu rheoli achosion wedi cael ei fabwysiadu eto gan nifer o staff ac roedd yno dystiolaeth o arfer unigolyddol.
- Cyfyngedig oedd mynediad at wasanaethau prif ffrwd, yn arbennig mewn perthynas ag addysg a pheth darpariaeth iechyd.
- Ni chafwyd llawer o ymyriadau oedd yn ymdrin ag anghenion merched a menywod ifanc, plant a phobl ifanc anabl a rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.
- Roedd angen rhoi sylw i gydymffurfio â safonau cenedlaethol, yn arbennig mewn perthynas â nifer yr apwyntiadau a gynigiwyd ac a gadwyd, a gweithrediad gorchmynion.
- Roedd yr ISSP yn gweithio'n dda ac roedd yn darparu model ar gyfer ymwneud da gyda phlant a phobl ifanc.

Gwaith gyda rhieni/gofalwyr

- Nid oedd y YOT hyd yma, wedi datblygu strategaeth neu ddull gweithredu clir ar gyfer gweithio gyda rhieni/gofalwyr.
- Ychydig o orchmynion magu plant a wnaed er bod staff yn ymwybodol o'r angen i gynnwys rhieni/gofalwyr mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a darparu cefnogaeth a chyngor iddynt yn ôl yr angen.
- Yn ddiweddar hysbysebwyd swydd cydlynydd magu plant er mwyn symud y maes gwaith yma yn ei flaen, a llwyddwyd i ddenu cyllid gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd ar ei chyfer.

Gwaith gyda dioddefwyr

- Roedd y YOT yn dechrau datblygu ei waith gyda dioddefwyr ac roedd yn y broses o recriwtio ar gyfer swydd Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO).
- Roedd y ffeil a ddarllenwyd yn dangos bod y YOT yn ymgynghori gyda llai na 30% o ddioddefwyr ynglŷn â'i waith gyda phlant a phobl ifanc, ac nad oedd llawer yn mynychu cyfarfodydd y panel gorchymyn cyfeirio.
- Roedd angen i'r datblygiadau arfaethedig ar gyfer y maes gwaith yma gynnwys prosesau monitro a gwerthuso cadarn, oedd yn rhoi ystyriaeth i adborth gan y dioddefwyr eu hunain.

Asesiad cyffredinol

Cododd yr archwiliad bryderon sylweddol ynglŷn â pherfformiad a rheolaeth YOT Caerdydd ac, o ganlyniad, yr asesiad cyffredinol yw **gwael ag angen gwella sylweddol.** Seiliwyd y farn ar y diffyg, tan yn ddiweddar, cyfeiriad strategol gan Grŵp Llywio'r YOT, patrymau amrywiol o ran goruchwyliaeth a rheoli staff ac anghysonderau a arsylwyd mewn gwaith gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi troseddu. Hefyd roedd angen datblygu gwaith gyda rhieni/gofalwyr a dioddefwyr plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu. Bydd angen rhoi sylw sylweddol i ymdrin â'r materion hyn.

Er hynny, fe'n calonogwyd gan ddull rhagweithiol Grŵp Llywio newydd y YOT a pharodrwydd sefydliadau partner i weithio'n gydweithredol. Er bod yr archwiliad wedi datgelu amryw o broblemau, nodwyd hefyd arfer da unigol a chawsom argraff dda o ymroddiad y staff i wella amgylchiadau'r plant a'r bobl ifanc yr oeddynt yn gweithio â hwynt. Roed dyr agenda ataliol yn gryf, gyda rhwydwaith gymhleth o gefnogaeth ar gyfer plant a phobl ifanc oedd mewn risg o droseddu, ac roedd yr ISSP yn darparu model ar gyfer ymyriad adeiladol. O'u harneisio'n effeithiol, fe ddylai'r ffactorau hyn gynorthwyo'r YOT i symud ymlaen.

Argymhellion

Dylai Cadeirydd Grŵp Llywio'r YOT sicrhau bod:

- cynllun gweithredu yn cael ei lunio i ymdrin â'r argymhellion canlynol a'u bod yn cael ei anfon ymlaen at yr arolygydd sy'n arwain o fewn tri mis i gyhoeddi'r adroddiad hwn
- gwaith yn cael ei wneud i sefydlu hunaniaeth gorfforaethol y YOT, trwy ddatblygu gweledigaeth a rennir, gwell cyfathrebu ar draws pob tîm a chysondeb arfer
- trefniadaeth a strwythur y YOT, yn cynnwys rôl rheolwyr, yn cael ei adolygu a'i ddatblygu i gefnogi esblygiad ei hunaniaeth gorfforaethol
- yr holl staff, yn cynnwys y Rheolwr YOT, yn derbyn cyfarwyddyd a chefnogaeth, goruchwyliaeth strwythuredig rheolaidd, datblygiad gyrfa ac yn cael eu gwerthuso.

Dylai Rheolwr y YOT sicrhau bod:

- ansawdd cynllunio goruchwylio yn cael ei wella i gwrdd â gofynion cenedlaethol a chynorthwyo rheolwyr achos wrth gynllunio ac adolygu gwaith gyda phlant a phobl ifanc
- asesiadau risg o niwed yn cael eu cwblhau ym mhob achos perthnasol, yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u cymeradwyo gan reolwyr fel sy'n briodol
- cyfarfodydd panel gorchymyn cyfeirio yn cael eu cynnal yn unol â'r safon cenedlaethol ac arweiniad arfer effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- gwaith gyda dioddefwyr yn cael ei ddatblygu yn unol â'r safon cenedlaethol ac arweiniad arfer effeithiol y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid, a bod camau'n cael eu cymryd i hybu ymwybyddiaeth o anghenion dioddefwyr a chyfiawnder adferol ar draws y YOT
- gweithio gyda rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu yn cael ei ddatblygu trwy ymyriadau strwythuredig, naill ar sail unigol neu grŵp
- trefniadau ar waith ar gyfer monitro ac ymdrin ag anghenion penodol plant a phobl ifanc o grwpiau amrywiol.

Dylai sefydliadau partner sicrhau bod:

- eu cynrychiolwyr yn derbyn cefngoaeth broffesiynol addas, goruchwyliaeht a mynediad addas at wasanaethau i'w galluogi i gyflawni eu rôl broffesiynol o fewn y YOT
- sgiliau a phrofiad y staff a secondiwyd yn gymesur â'u rôl a'u swyddogaeth o fewn y YOT.

Dylai'r Gwasanaeth Ysgolion sicrhau bod:

- adolygu ei gyfrifoldebau ar gyfer y plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â'r YOT, sydd naill ai wedi eu gwahardd o'r ysgol, sydd mewn risg o gael eu gwahardd neu sydd fel arall allan o addysg, ac mewn ymgynghoriad â Rheolwr y YOT a Grŵp Llywio'r YOT, datblygu a gweithredu cynllun gweithredu i ymdrin â'u hanghenion addysg.

Trosolwg

- Caerdydd yw prifddinas Cymru ac mae wedi'i lleoli ar arfordir de-ddwyreiniol y wlad. Cyfanswm poblogaeth y trigolion yno yw 305, 353 (Cyfrifiad 2001). O blith y boblogaeth hon, mae 26.7% dan 19 oed, sydd ychydig yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (24.9%).
- Yn y cyfrifiad mae ystadegau am grwpiau ethnig yn dangos mai poblogaeth o bobl wyn a geir yn bennaf yng Nghaerdydd, sef 91.6%. Mae'r grŵp ethnig lleiafrifol mwyaf yn Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig gyda 4.0%, sy'n sylweddol uwch na'r ffigur cyfartalog ar gyfer Cymru (0.9%). Mae cyfartaledd trigolion croenddu neu groenddu Prydeinig yng Nghaerdydd, sef 1.3%, hefyd yn llawer uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru (0.2%).
- Yng Nghaerdydd, mae 16.3% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf. Mae'r ffigur hwn yn is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru sef 28.4%.
- Lefel cyflogaeth yng Nghaerdydd yw 55.6%, sy'n is na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr (60.6%), ond mae lefelau diweithdra yn debyg, sef 3.1% a 3.4%. Gallai'r gwahaniaeth mewn lefelau cyflogaeth ddeillio o'r ffaith fod nifer fawr o fyfyrwyr yn byw yng Nghaerdydd sy'n economaidd weithgar ac economaidd segur.
- Mae crynodeb diweddar y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (YJB) o berfformiad Timau Troseddu Ieuenctid (YOT) ar sail y prif ddangosyddion perfformiad ar gyfer Ionawr hyd Fawrth 2004 yn gosod Caerdydd yn y 142^{fed} safle.
- Mae ffigurau'r YJB ar gyfer troseddu ieuenctid rhwng Ebrill 2002 a Mawrth 2003 (dangosir isod) yn nodi bod troseddu ieuenctid yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer Cymru a Lloegr. Y nifer mwyaf o droseddau a ganfuwyd, a hynny o ddigon, yw troseddau cerbydau, ac yn dilyn byrglera domestig a lladrata o gerbydau. Er hynny mae'r gyfradd o ran torri gorchmynion statudol yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

	Nifer y troseddau yng Nghaerdydd	Cyfartaledd ar sail pob YOT yn Lloegr a Chymru
Trais yn erbyn unigolyn	262	222
Troseddau hiliol	15	9
Troseddau rhyw	21	11
Marwolaeth neu anaf yn sgil gyrru diofal	0	0.8
Troseddau'n ymwneud â cherbydau	1,802	394
Lladrata	17	30
Byrglera domestig	132	50
Byrglera annomestig	63	36
Lladrata o gerbydau	224	97
Lladrata a delio gydag eiddo	668	305
Twyll a ffugio	41	19
Llosgi	6	9
Difrod troseddol	259	175
Troseddau cyffuriau	128	85
Trefn gyhoeddus	142	113
Arall	138	61
Torri amod rhyddhau	3	9
Torri gorchymyn statudol	23	52
Torri amod mechnïaeth	99	31
CYFANSWM	4,043	1708.8

1. TREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH

1.1 Arweiniad

Meini prawf yr archwiliad

Mae'r Bwrdd Rheoli:

- *yn darparu trosolwg a chyfeiriad strategol ac mae'n cydlynu'r ddarpariaeth o ran gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid gan y YOT a chyrff sy'n bartneriaid*
- *yn cynnwys cynrychiolwyr priodol sy'n mynychu ac yn cymryd rhan weithgar mewn cyfarfodydd*
- *yn sicrhau bod manylion data cywir ac amserol ar gael, ar gyfer ei ddefnydd ei hun a defnydd y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid*
- *yn rhoi cefnogaeth a chanllawiau i Reolwr YOT, gan sicrhau eu bod yn ymwneud â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol*
- *yn sicrhau bod y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei weithredu.*

Mae'n bwysig o ddechrau'r adroddiad hwn ein bod yn gosod yr archwiliad o fewn cyd-destun y cynnwrf sylweddol a brofwyd gan Gyngor Dinas a Thref Caerdydd ac yn arbennig gan yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. O ganlyniad gwelwyd nifer o newidiadau ar lefel prif ac uwch swyddogion rheoli a chafwyd cyfnod ansefydlog, a effeithiodd ar y YOT.

Nid oedd Grŵp Llywio'r YOT wedi gweithredu'n dda ers cryn amser. Pan benodwyd Rheolwr YOT yn Chwefror 2002, gwelwyd mai achlysurol yn unig yr oedd y grŵp yn cyfarfod ac nid oedd yn cynnwys nifer ddigonol o uwch swyddogion i'w alluogi i weithredu'n effeithiol. O ganlyniad i hyn, ychydig o gyfeiriad strategol a gafwyd ac nid oedd yn cydlynu'r gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid a gâi eu darparu gan y YOT ac asiantaethau partner. Cyfuniad o'r ffactorau oedd yn gyfrifol am ddiffyg arweiniad y grŵp ac fe'i diddymwyd.

Parhaodd y YOT i weithredu, ond hyd yn ddiweddar, heb drosolwg corfforaethol na strategol o'i waith. O ganlyniad roedd y gwaith o ddarparu manylion amserol a chywir i'r YJB a datblygu a gweithredu'r Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn gyffredinol dan ofal y rheolwr.

Yn Nhachwedd 2003, ailsefydlwyd Grŵp Llywio'r YOT a chynhaliwyd ei gyfarfod cyntaf. Cadeiriwyd y grŵp newydd gan y Cyfarwyddwr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Corfforaethol, a benodwyd yn ddiweddar, y dirprwywyd iddo bwerau llawn o ran rheolaeth gan Brif Swyddog Gweithredol Caerdydd.

Pan gafodd ei gyfweld ar gyfer yr archwiliad hwn, lleisiodd y Cadeirydd nifer o bryderon am berfformiad y YOT yn gyffredinol. Roedd wedi rhagweld mai ei rôl oedd lleihau effaith troseddu gan blant a phobl ifanc yng

Nghaerdydd, pontio Gwasanaethau Plant a'r rhaglen diogelwch cymunedol, a chredai y dylai Grŵp Llywio'r YOT fod yn atgyfnerthu'r weledigaeth hon. Er gwaethaf y ffaith mai rhan fechan yr oedd wedi'i chwarae hyd yma, roedd eisoes wedi penderfynu edrych ar y dull y gweithredid y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid dair gwaith y flwyddyn, ac roedd wedi gofyn am adroddiadau ychwanegol ar gyllid a pherfformiad. Mynegodd hefyd ei fwriad i archwilio dwy agwedd o ddarpariaeth gwasanaeth mewn manylder ar bob achlysur ac roedd wedi pennu gwaith gyda rhieni/gofalwyr a dioddefwyr, fel y rhai cyntaf i gael eu hystyried Roedd nifer o aelodau eraill o Grŵp Llywio'r YOT yn ategu'r sylwadau hyn. Roeddent yn gobeithio y byddai'r grŵp yn effeithiol ond gan gydnabod, hyd yma, iddo roi ychydig iawn o gyfeiriad strategol na monitro. Roedd parodrwydd i weithio'n gydweithredol.

Cynhaliwyd yr ail gyfarfod yn ystod cyfnod gwaith maes yr archwiliad. Cafwyd presenoldeb da yn y cyfarfod ac yn gyffredinol, roedd lefel briodol o gynrychiolaeth gan y cyfarwyddiaethau o fewn yr awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill. Roedd peth ansicrwydd o hyd a oedd cynrychiolaeth briodol gan addysg. Hefyd roedd Grŵp Llywio'r YOT yn cynnwys aelodau etholedig gyda phortffolios ar gyfer diogelwch cymunedol a materion ieuenctid. Credai'r Cadeirydd newydd y byddent yn gwneud cyfraniad defnyddiol i feddylfryd y grŵp gan ddarparu cyswllt uniongyrchol â threfniadau gwleidyddol yr awdurdod lleol. Un o'r aelodau etholedig oedd Cyd-gadeirydd Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd ac ystyrid bod ei chyfranogiad hi'n cryfhau'r berthynas rhwng y ddau grŵp tra'n sicrhau sefyllfa unigryw y YOT a'i ffocws ar blant a phobl ifanc. Mae'r aelod etholedig arall yn cadeirio Fframwaith Plant a Phobl Ifanc, cyswllt pwysig arall gyda'r YOT.

Cyfarfu Grŵp Llywio'r YOT yn union ar ôl Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd, gan fod nifer o gynrychiolwyr yn mynychu'r ddau gyfarfod, mewn ymgais i wneud y mwyaf o amser pobl a sicrhau presenoldeb rheolaidd a chyson. Roedd ffocws i'r cyfarfod ac roedd yn gynhyrchiol. Cafwyd trafodaeth gadarn a gwnaed cysylltiadau clir gyda ffora a chynlluniau cyfiawnder troseddol eraill, gan gynnwys y cynlluniau plismona a phrawf a blaenoriaethau iechyd.

Cryfderau:

- Roedd Grŵp Llywio'r YOT newydd ar waith ac roedd wedi gwneud dechrau cadarnhaol.
- Roedd presenoldeb a lefel cynrychiolaeth y grŵp newydd yn dda ond roedd angen ei fonitro er mwyn sicrhau ei fod yn parhau felly.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Roedd angen i Grŵp Llywio'r YOT sicrhau bod:
  - manylion cywir yn cael eu darparu i'r YJB
  - y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ddatblygu a'i weithredu
  - bod Rheolwr YOT yn cael cefnogaeth a chyfeiriad.

1.2 Partneriaeth ac adnoddau

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod nifer o ymyriadau a gwasanaethau yn cael eu darparu i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc sy'n troseddu a'r rhai mewn risg o droseddu.*
- *Bod YOTau wedi'u staffio'n briodol gan bartneriaid yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau'r Swyddfa Gartref.*
- *Bod Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu strategaethau partneriaid.*
- *Bod protocolau wedi'u cytuno rhwng y YOT, ei bartneriaid statudol a chyrff eraill gan amlinellu lefel y gwasanaeth, materion adnoddau dynol a threfniadau cyllido.*
- *Bod contractau yn eu lle gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei gydlynu a bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n briodol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc.*

Roedd gan y YOT nifer o ymyriadau a gwasanaethau ar gael, ac roedd rhai'n cael eu darparu'n uniongyrchol gan staff YOT. Roedd y rhain yn cynnwys ymyriadau fel rheoli tymer a chamddefnyddio sylweddau, a gwaith uniongyrchol gan reolwyr achos. Hefyd roedd nifer o ymyriadau gwneud iawn ar gael.

Arfer da

Roedd darparwyr allanol ymyriadau'n cynnwys:

- **Gyrfa Cymru** oedd yn darparu'r Porth Ieuenctid, gan gynnig rhaglenni mentora a chodi hunanymwybyddiaeth. Roeddent yn gweithio'n arbennig gyda phlant a phobl ifanc ar Raglenni Goruchwylio a Gwyliadwriaeth Dwys (ISSP) i'w helpu i gael mynediad i gyfleon hyfforddiant a chyflogaeth.
- **INCLUDE** oedd yn cynnig rhaglen ddwys o gyfleon Cyflogaeth, Hyfforddiant ac Addysg (ETE) ar y cyd â darparwyr lleol ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed ar raglenni goruchwylio mechnïaeth, gorchmynion cymunedol a phlant a phobl ifanc wedi'u rhyddhau o'r ddalfa.
- **Llamau** oedd yn cynnig cyngor, eiriolaeth, cyfryngu, cymorth tai a hyfforddiant yn ogystal â phum lleoliad tai â chymorth. Roeddent hefyd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc unigol i ddelio â rheoli tymer.
- **Cynllun Gwobrau Dug Caeredin** oedd wedi secondio gweithiwr i'r YOT fel rhan o fenter beilot i sefydlu'r wobr fel rhan o gynnwys gorchmynion llysoedd i wneud iawn. Roeddent yn annog plant a phobl ifanc i wneud defnydd adeiladol o amser hamdden, fel unigolion ac fel grwpiau. Roedd gweithgareddau'n agored i'r holl blant a phobl ifanc mewn cyswllt â'r YOT ac roedd yn cynnwys prosiectau fel y prosiect troseddau'n ymwneud â cherbydau (*auto crime project*) a'r gwaith yn seiliedig ar gelf, yn arbennig y prosiect graffiti yn llyfrgelloedd Canol Caerdydd a Grangetown a gwahanol ganolfannau ieuenctid yr awdurdod lleol. Nodwedd dda o'r gwaith hwn oedd y cyfleon a gynigiwyd i

blant a phobl ifanc i ennill credyd Rhwydwaith y Coleg Agored am agweddau o'u gwaith, yn ogystal â gweithio tuag at eu gwobr lawn.

- **Inroads**, Prosiect Cyffuriau Strydoedd Caerdydd, asiantaeth wirfoddol, sy'n gyfrifol am weithio gyda phobl sy'n cael problemau yn sgil defnyddio cyffuriau. Roedd y bartneriaeth yn rhan o wasanaeth cynghori/trin cyffuriau ehangach ac fe wnaeth y YOT elwa o gyfraniad gweithiwr Inroads a gafodd ei secondio.
- **Crime Concern** oedd yn rheoli'r Rhaglen Cynnwys Ieuenctid (YIP) ar ran y YOT.
- **Prosiect Taith**, trefniant sy'n bartneriaeth rhwng Barnardos, Heddlu De Cymru, y saith YOT yn Ne Cymru ac Uned Ddiogel Hillside, oedd yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc gydag ymddygiad rhywiol niweidiol neu ymddygiad pryderus.
- **Prosiect Mynegai Sgrinio Gallu Hayes** Roedd y Seicolegydd Ymgynghorol, a fu'n gweithio'n agos gyda'r YOT, wedi bod yn defnyddio'r mynegai hwn i sgrinio 75 o blant a phobl ifanc, rhwng 11-18 oed ar gyfer materion iechyd meddwl posibl a/neu gyda rhyw gymaint o anableddau dysgu. Nod yr ymchwil oedd gwella'r dull o ddarganfod anawsterau dysgu neu iechyd meddwl sydd angen ymyrraeth trwy naill ai Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant ac Oedolion (CAMHS) neu wasanaethau anabledd.

Er gwaethaf y ffaith bod prosiectau arloesol fel Gyrfa Cymru ac INCLUDE yn bodoli, roedd diffyg o hyd mewn gwasanaethau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc dan 16 oed. Roedd gan nifer o'r plant a'r bobl ifanc oedd yn derbyn gwasanaethau gan y YOT anghenion addysgol arbennig, yn arbennig mewn perthynas â sgiliau allweddol a llythrennedd, ac nid oedd rhai wedi derbyn addysg briodol am gyfnodau sylweddol o amser. Sylwyd bod y YOT yn gweithio gyda phlant wedi'u heithrio oedd mor ifanc â 13 oed a heb leoliad mewn ysgol, na threfniant boddhaol arall ar gyfer eu haddysg. Roedd y YOT yn gwneud defnydd o brosiectau da oedd yn paratoi plant a phobl ifanc i wneud y gorau o bosibiliadau addysgol. Er hynny, nid oedd strategaeth glir er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn eu hawl i addysg prif lif a chyfleon addysgol a hyfforddiant eraill.

Roedd aelodaeth y YOT at ei gilydd yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau. Nid oeddem mewn sefyllfa i wneud sylwadau ar ba mor briodol oedd lefel staffio'r YOT gan asiantaethau partner, ond sylwyd bod:

- gwasanaethau cymdeithasol yn darparu saith swydd gwaith cymdeithasol yn ogystal â'r swyddi gweinyddol
- bod cynrychiolaeth dda i'w gweld o'r heddlu gyda thri swyddog amser llawn oedd yn gweithio o fewn rolau wedi'u diffinio
- darparwyd mewnbwn i'r YOT gan y gwasanaeth addysg drwy secondio Swyddog Lles Addysg a chyllidwyd Swyddog Lles Addysg arall yn y tymor byr drwy Grantiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymorth Hyfforddiant ac Addysgol
- cyllidwyd swydd nyrs iechyd arbenigol ar y cyd gan iechyd a Phartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd

- roedd y gwasanaeth prawf yn ôl ei draed ar ôl cyfnod o gael anhawster recriwtio, gyda swydd tri gweithiwr cymwysedig wedi'u llenwi erbyn hyn.

Cafodd ein pryderon ynghylch gallu'r YOT i gael mynediad i wasanaethau addysg prif lif eu hatgyfnerthu wrth inni archwilio rôl y Swyddog Lles Addysg, oedd yn ymwneud yn draddodiadol â delio'n bennaf gyda materion presenoldeb. Roedd y Swyddog Lles Addysg a oedd wedi'i secondio i'w gymeradwyo am fod yn rhag weithiol yn paratoi ei weithdrefnau ei hun ar gyfer gweithio yn y YOT. Gweithredodd fel eiriolwr gydag ysgolion a theimlai fod ei ymyriadau'n helpu plant a phobl ifanc i ail integreiddio â darpariaeth addysgol. Er hynny, nid oedd ganddo fynediad i'r gronfa ddata addysgol ac nid oedd protocol clir gyda'r Gwasanaeth Ysgolion er mwyn sicrhau hawl plant a phobl ifanc i addysg a hyfforddiant. O ganlyniad ni roddwyd pwyslais digonol ar y materion hyn fel y prif ffactor sy'n dylanwadu'n erbyn aildroseddu.

Roedd gennym hefyd rai pryderon am yr hyn yr oedd y nyrs iechyd arbenigol yn gyfrifol amdano, o ystyried ei rôl a'i phrofiad, ond gan gydnabod yn llawn y gwaith amhrisiadwy a wnâi a'r parch a ddangosai ei chydweithwyr a'r plant a'r bobl ifanc tuag ati. Roedd un defnyddiwr cyffuriau (yn ogystal ag Inroads) a mynediad i Nyrs Seiciatrig Cymuned Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), nad oedd wedi'i leoli gyda'r YOT. Er gwaethaf yr ymdrechion a wnaed gan yr arbenigwyr iechyd i roi cymorth i blant a phobl ifanc a gwneud cyfeiriadau priodol, dywedodd staff wrthym fod oedi hir i gael mynediad i CAMHS, yn arbennig felly ar gyfer pobl ifanc rhwng 16-18 oed, gyda chyfnodau o wythnosau neu fisoedd yn mynd heibio cyn cael apwyntiad. O ganlyniad roedd y YOT yn cael anhawster cwrdd â tharged y dangosydd perfformiad a osodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid.

Roedd trafodaethau'n dal ar y gweill am lefel a phriodolrwydd secondiadau i'r YOT. Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried cyflwyno cyfnewid staff rhwng y YOT a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd ar gontractau amser-penodol, ac roedd yr heddlu, oedd yn darparu llawer o gefnogaeth gadarnhaol barhaus i'r YOT, wedi mynegi eu parodrwydd i adolygu eu lefel o adnoddau. Roedd Grŵp Ymgynghorol yr Awdurdod Heddlu yn ddiweddar wedi gwneud gwerthusiad, ar ran Grŵp Arweinyddiaeth Cyffredinol De Cymru, o berfformiad cymharol saith YOT De Cymru. Rhan o'r adolygiad hwn oedd edrych ar staffio (ac adnoddau eraill) mewn perthynas â phoblogaeth ieuenctid, amddifadedd a daearyddiaeth, yn ogystal â llwythi gwaith. Ni chwblhawyd yr adroddiad tan ddiwedd Ionawr 2004 ar yr adroddiad yn cael ei gwblhau ac nid oedd eto wedi'i drafod gan Grŵp Llywio'r YOT.

Roedd Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid yn adlewyrchu rôl yr asiantaethau partner a rhagwelwyd y byddai'r Grŵp Llywio'r YOT newydd yn sicrhau bod y cysylltiadau hyn yn cael eu cryfhau a'u gwella.

Roedd nifer o brotocolau yn eu lle. Roedd rhai yn fanwl, yn cael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd, e.e. gyda'r heddlu. Derbyniwyd drafft o brotocol newydd gyda'r gwasanaeth prawf. Er hynny ni roddwyd copïau

inni o'r protocolau gyda gwasanaethau cymdeithasol, addysg ac iechyd, ond dywedwyd wrthym bod angen eu diweddaru.

Hefyd roedd Cytundebau Lefel Gwasanaeth yn eu lle ar gyfer asiantaethau eraill oedd yn darparu gwasanaethau i'r YOT. Roedd rhai'n gynhwysfawr ac wedi'u harwyddo; roedd eraill yn fwy cyfyngedig ac yn ymddangos fel pe baent heb eu gorffen. Roedd angen datblygu ambell un o hyd.

Cryfderau:

- Roedd gan y YOT fynediad i nifer o ymyriadau.
- Roedd y rhan fwyaf o asiantaethau partner yn fodlon trafod trefniadau secondio yn agored.
- Roedd rhai protocolau yn eu lle a gwaith ar y gweill i ddiweddaru ac adolygu eraill.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Roedd y ddarpariaeth o wasanaethau addysg prif lif yn annigonol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc a oruchwylir gan y YOT.
- Dylai'r YOT sicrhau bod mynediad addas yn cael ei ddarparu i wasanaethau iechyd arbenigol i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc.
- Mae angen adolygu a diweddaru protocolau ar gyfer secondio staff.
- Mae angen cwblhau Cytundebau Lefel Gwasanaeth ar gyfer nifer o bartneriaid.

1.3 Goruchwylio, datblygu a hyfforddi staff

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod staff yn cael eu goruchwylio'n rheolaidd yn unol â'u hanghenion datblygu a'u lefel gallu a aseswyd.*
- *Bod gwerthuso blynyddol yn cynnwys amcanion sydd yn gysylltiedig â thargedau lleol a chenedlaethol.*
- *Bod pob aelod o staff yn cael cyfleon hyfforddi priodol i'w harfogi i gwrdd ag anghenion y Cynllun Cyfiawnder Ieuenctid.*
- *Bod staff wedi'u cymhwyso'n briodol gan wirio nad oes ganddynt gofnod troseddol.*
- *Bod gwirfoddolwyr wedi'u hyfforddi'n briodol, ac ar gael i wneud gweithgareddau YOT. Gwirir nad oes ganddynt gofnod troseddol.*
- *Bod cytundebau ar y cyd yn eu lle ar gyfer rheoli gweithdrefnau disgyblu, gallu a chwynion.*
- *Bod cwynion yn cael eu rheoli'n briodol.*

Nid oedd patrwm cyson o oruchwylio ar lefel rheoli neu ar draws y timau. Dim ond yn ddiweddar yr oedd Rheolwr YOT wedi dechrau cael ei

oruchwylio gan Bennaeth newydd Gwasanaethau Plant ac nid oedd yn goruchwylio ei rheolwyr tîm, er ei bod yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd iawn â hwy. Roedd rhai staff dan oruchwyliaeth ffurfiol ar sail reolaidd, tra bo eraill â dim goruchwyliaeth fwy neu lai. Roedd patrwm tebyg gyda rhai o'r staff o asiantaethau partner. Roedd y rhai oedd wedi'u secondio o'r heddlu a'r gwasanaeth prawf dan oruchwyliaeth reolaidd gan y sefydliadau hynny tra bo'r gweithwyr o addysg a rhai o weithwyr iechyd a chyffuriau heb unrhyw oruchwyliaeth, ond eu bod dan oruchwyliaeth dda gan eu rheolwr tîm yn y YOT.

Dim ond staff yr heddlu a'r gwasanaeth prawf oedd wedi gorffen cael eu gwerthuso gan y sefydliadau hynny, gyda mewnbwn gan y YOT. Yn ddiweddar roedd Cyngor Dinas a Thref Caerdydd wedi datblygu cynllun gwerthuso corfforaethol a oedd, yn ôl yr hyn a ddywedwyd wrthym, i'w lansio'n fuan.

Roedd y YOT yn derbyn cyllideb hyfforddiant cyfyngedig (£3000 ar gyfer 60 staff) gan yr awdurdod lleol ac roedd pwyslais wedi'i roi ar Ddull Asesu wedi'i ddatblygu gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid (ASSET) a Sefydliadau Troseddwyr Ifanc (YOIS). Roedd gan staff wedi'u secondio fynediad i gyfleon hyfforddiant gan eu hasiantaethau eu hunain ac roedd gwahanol gyrsiau ar gael drwy'r awdurdod lleol, am ddim, i'r YOT. Cawsom adroddiadau gwahanol gan staff ynghylch cynnwys y cyrsiau a mynediad i hyfforddiant, ond roedd yn galonogol clywed am yr hyfforddiant da a safonol a ddarparwyd am gamddefnyddio sylweddau a chyfweld gan y Tîm Cyffuriau ac Alcohol yn y Gymuned i weithwyr iechyd a chyffuriau.

Er gwaethaf yr anawsterau a gafodd y YOT i secondio staff di-gymhwyster i gael hyfforddiant er mwyn ennill cymhwyster proffesiynol, roedd staff presennol ar y cyfan â chymwysterau priodol. Roedd pawb wedi derbyn yr archwiliadau angenrheidiol ar gyfer gweithio gyda phlant a phobl ifanc. Roedd ethnigrwydd y grŵp ychydig yn is na'r hyn a adlewyrchid yn y boblogaeth leol yn gyffredinol.

Roedd gan y YOT gyflenwad cyson o wirfoddolwyr o blith myfyrwyr o golegau yng Nghaerdydd a Phrifysgol Morgannwg. Roedd hefyd ymateb da gan bobl hŷn eraill. Nid yw grwpiau ethnig lleiafrifol wedi'u cynrychioli'n dda yn y grŵp gwirfoddolwyr, am amryw o resymau. Roedd y gymuned Somali, er enghraifft, â diddordeb mawr mewn gweithio gyda'r YOT, ond nid oedd yn gallu cynnal y lefel angenrheidiol o gyfranogiad. Er hynny, roedd gwirfoddolwyr ar gael pe bai un o'u cymuned angen cymorth. Roedd pawb yn derbyn rhaglen gynefino a hyfforddiant da ac yn cael eu harchwilio rhag ofn fod ganddynt gofnod troseddol.

Roedd cysylltiadau wedi'u ffurfio gyda Choleg Cymunedol yr YMCA ac roedd y YOT erbyn hyn yn cynnig cyfres o fodiwlau gyda chredydau, ar gyfer plant a phobl ifanc. Roedd trefniadau ar y gweill i'r gwirfoddolwyr oedd yn cynorthwyo'r YOT i elwa o'r modiwlau credyd ar gael.

Gwelwyd amryw o densiynau yn y YOT ynghylch graddio, graddfeydd cyflog a swydd-ddisgrifiadau. Roedd morâl yn amrywio drwy'r tîm ac roedd ychydig o densiwn rhwng rhai grwpiau o staff, a amlygid yn y gwahaniaethu amlwg rhwng staff cymwysedig a digymhwyster a'r hyn a

ddisgrifid fel staff proffesiynol a gweinyddol. Er bod y YOT wedi'i leoli mewn un adeilad, oedd braidd ar wasgar, nid oedd y berthynas rhwng staff bob amser yn adeiladol. Ni wnaed unrhyw ymgais i ddelio gyda'r materion hyn trwy gyfarfodydd i holl aelod o'r staff neu ddiwrnodau allan o'r swyddfa.

Roedd gan fwyafrif y taflenni gwybodaeth am y YOT adran ar gwynion ond dywedodd Rheolwr YOT nad oedd unrhyw gŵyn wedi'i derbyn hyd yma. Nid oedd mecanwaith presennol ar gyfer adrodd cwynion ffurfiol i Grŵp Llywio'r YOT.

Roedd protocol rheoli risg mewn perthynas â diogelwch staff, oedd yn cynnwys ymddygiad plant a phobl ifanc a'u teuluoedd. Roedd llawlyfr da hefyd yn cael ei ddatblygu. Roedd y YOT yn rhan o Gynllun Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb Hiliol yr awdurdod lleol.

Roedd rhai protocolau ar waith ar gyfer delio gyda chwynion gan staff, disgyblu a materion tebyg. Roedd y rhain yn ymwneud â sefyllfaoedd yn cynnwys staff o un asiantaeth yn unig. Roedd Rheolwr YOT yn ceisio datblygu mecanweithiau, a phrotocolau drafft i gynnwys mwy nac un sefydliad, ac roedd dogfennau drafft yn aros i gael eu cymeradwyo gan Grŵp Llywio'r YOT.

Cryfderau:

- Roedd y rhaglen wirfoddolwyr:
  - wedi'i threfnu'n dda, yn effeithiol, yn cael ei monitro a'i gwerthuso
  - â chyflenwad o wirfoddolwyr o ystod oedran eang rhwng 20-60 a hŷn
  - yn darparu cefnogaeth a hyfforddiant effeithiol
  - yn paratoi llyfrynnau gwybodaeth a chylchlythyr bob deufis.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid yw pob aelod o staff yn cael ei oruchwylio a'i werthuso.
- Roedd angen datblygu hyfforddiant unigol a rhaglenni datblygu er mwyn cyfrannu at y rhaglen YOT gyffredinol.
- Rhaid mabwysiadu rheoli achosion a rheoli perfformiad drwy'r YOT.
- Dylid cymryd mesurau i ddelio gyda thensiynau adnoddau dynol a pherthynas o fewn y YOT.

Arfer da

Ar ôl cryn drafod, roedd proses addas ar gyfer datgelu gwybodaeth wedi'i ddatblygu oedd yn gweithio'n dda, Roedd hyn yn arbennig o bwysig i droseddwyr Atodlen 1.

- Datgelir gwybodaeth sylfaenol am droseddau i unigolyn dynodedig fel rhan o'r ddarpariaeth hyfforddiant, gyda chytundeb y plentyn neu'r person ifanc.
- Rhoddir cyngor i blant a phobl ifanc ynglŷn â sut i ddatgelu gwybodaeth, yn arbennig ar ffurflenni cais. Rhoddir gwybodaeth sylfaenol ar y ffurflen a rhoddir canllawiau iddynt sut i ddatgelu'r wybodaeth i'r darparwr hyfforddiant wyneb yn wyneb. Mae hyn yn galluogi plant a phobl ifanc ddelio gyda'r sefyllfa. Gan amlaf bydd y darparwr hyfforddiant yn ymateb gyda mwy o gydymdeimlad o gael eglurhad personol gan y plentyn neu'r person ifanc.

ASESIAD CYFFREDINOL O DREFNIADAU RHEOLI A PHARTNERIAETH

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn rhannol.

2. PLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU

2.1 Asesu'r rhai sydd mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod mecanwaith ar gyfer darganfod y plant a'r bobl ifanc hynny o fewn yr ardal sydd mewn risg o droseddu.*
- *Bod trefniadau ar gyfer asesu anghenion yr unigolion hynny sydd wedi'u darganfod o fod mewn risg o droseddu.*

Nid oedd YOT Caerdydd yn darparu'n uniongyrchol unrhyw wasanaethau ataliol ond roedd Rheolwr YOT a'i rheolwyr yn ymwneud â nifer o ffora ac yn eu hystyried fel cyfrwng priodol ar gyfer datblygu gwaith o'r fath. Roeddent yn cynnwys Partneriaeth Pobl Ifanc, Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd a'i is-grŵp ar ymddygiad gwrthgymdeithasol, grŵp Rheolwr YOT De Cymru, grŵp Rheolwr YOT Cymru, cysylltiadau gyda Grŵp Strategol Atal Troseddu Ieuenctid Llywodraeth Cynulliad Cymru, grŵp rhyngwyneb YOT-Gwasanaethau Plant Cymru wedi'i hyrwyddo gan Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, y cyswllt gyda Grŵp Arweinyddiaeth Cyffredinol De Cymru a grwpiau eraill gyda ffocws ar waith ataliol. Roedd rhai o'r prosiectau â mynediad-agored, ond roedd pob un wedi'i dargedu yn ôl meysydd angen.

Roedd y YOT yn ymwneud â Phrosiect y Ddraig, system rhannu data a gyllidir gan Gynulliad Cymru y bwriedid ei defnyddio drwy Gymru. Ar hyn o bryd roedd yn cynnwys data, yn bennaf, gan gyrff ym mhartneriaethau De Cymru, e.e. yr heddlu, y gwasanaeth tân, addysg ac iechyd. Roedd y prosiect yn derbyn gwybodaeth yn ddyddiol gan yr heddlu ac yn fisol gan y YOT a gallai ddad-bersonoli gwybodaeth am unigolion fel y gellid ei rhannu ar draws gwahanol asiantaethau. Gallai'r prosiect hefyd ddehongli patrymau gwybodaeth ar gyfer grwpiau aml-asiantaeth, ond ei brif ddiben oedd dehongli gwybodaeth o'r fath a datblygu cynllun gweithredu priodol. Dangoswyd inni enghraifft oedd yn cynnwys tair haen o wybodaeth, yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu rhwng 10-14 oed
- eithrio o ysgolion
- rhieni sengl.

Roedd y patrymau'n awgrymu bod rhaglenni magu plant yn un ateb sy'n helpu rhieni sengl ddelio gyda phlant sy'n 'broblem', sy'n cyflawni troseddau ac yn cael eu heithrio o'r ysgol.

Roedd yna hefyd Raglen Cynhwysiant Ieuenctid gyda Rheolwr YOT yn cadeirio ei fwrdd rheoli. Ar hyn o bryd roedd gwaith yn cael ei wneud gyda 35 o blant a phobl ifanc rhwng 13 ac 17 oed. Roeddent wedi'u dewis o blith

rhestr gyffredinol o 50 o blant a phobl ifanc y gwahoddwyd asiantaethau partner lleol i helpu eu dethol. Gosodwyd sgôr ar gyfer y plant yn nhermau'r risg o aildroseddu, a chrynhowyd gwybodaeth gan wahanol asiantaethau cyn dod i benderfyniad ar y cyd ynghylch pa blant a phobl ifanc a ystyrid y mwyaf tebygol o droseddu. Roedd y grŵp arbennig hwn yn cael ei adolygu ar sail flynyddol mewn cyfarfod yn cynnwys cynrychiolydd YOT, swyddog heddlu cymunedol lleol, athro o'r ysgol gynradd a rheolwr tîm o'r gwasanaethau cymdeithasol, yn ogystal â'r gwasanaeth heddlu a mewnbwn gan Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol Caerdydd. Gan fod y prosiect yn gwbl wirfoddol, nid oedd modd gorfodi'r plant a'r bobl ifanc i fod yn bresennol (ac eithrio fel rhan o ISSP). Chwech o enethod a merched ifanc yn unig oedd yn ymwneud â'r prosiect hwn.

Cryfderau:

- Roedd y YOT yn ymwneud â datblygiad strategol rhaglenni ataliol.
- Roedd Prosiect y Ddraig yn darparu dull aml-asiantaeth o ran darganfod plant a phobl ifanc oedd mewn risg o droseddu.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Gellid gwneud mwy o ddefnydd o Brosiect y Ddraig o ran datblygu ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu neu oedd mewn risg o droseddu.

2.2 Ymyriadau ar gyfer y rhai mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod trefniadau er mwyn darparu ymyriadau ar gyfer y plant a'r bobl ifanc hynny o fewn yr ardal oedd wedi'u hasesu o fod mewn risg o droseddu.*
- *Bod gan y YOT fethodoleg ar gyfer mesur effeithiolrwydd rhaglenni ymyriadau ataliol.*
- *Bod ymyriadau'n briodol i anghenion amrywiol plant a phobl ifanc yn ardal y YOT a'u bod yn cymryd i ystyriaeth yr angen i ddiogelu plant a phobl ifanc.*
- *Bod ymyriadau'n targedu anghenion criminogenig y rhai sydd mewn risg o droseddu.*

Roedd nifer fechan o raglenni ymyriadau llwyddiannus gan gynnwys y YIP. Roedd y YIP yn cynnwys dau weithiwr prosiect, gyda chefnogaeth chwe gwirfoddolwr a swyddog gweinyddol, oedd wedi'i leoli'n ganolog mewn stad dai fawr. Roedd yn cynnig gweithgareddau'n cynnwys canŵio, abseilio, ffotograff a cherdded mewn ceunentydd.

Darparwyd gweithgaredd 'Sblash yr Haf' dros gyfnod o bum wythnos yn ystod gwyliau'r haf. Roedd y YOT wedi llwyddo i ddenu cyllid 'Sblash' ar gyfer chwe rhan arall o'r ddinas. Hefyd roedd cynllun 'Cerdyn Stretch'

ledled y ddinas yn galluogi plant a phobl ifanc, a lle bo'n briodol, y bobl broffesiynol yn gweithio gyda hwy, i wneud defnydd llawn o'r gwahanol gyfleusterau chwaraeon a hamdden yn y ddinas (a theithio ar y bws am ddim) a thrwy hynny ddarparu gweithgareddau ychwanegol yn y gwyliau.

Roedd y YOT yn cefnogi'r Cynllun Ailddechrau Mentora, yn cael ei arwain gan Caerdydd Ddiogelach, oedd yn cael ei gyllido gan y YJB ac yn rhan o brosiect ehangach Ailgychwyn yng Nghaerdydd. Roedd y cynllun mentora'n gweithio gyda rhai rhwng 11-13 oed mewn un rhan o'r ddinas, nad oeddent yn mynychu ysgol, ac roedd hefyd yn darparu tiwtoriaid i hyrwyddo'r cam o ddychwelyd i addysg prif lif. Roedd yn gweithredu oddi ar safle'r ysgol am ddau ddiwrnod yr wythnos, gan gyfateb plant a phobl ifanc â mentoriaid a thiwtoriaid llythrennedd a rhifyddeg.

Roedd y gweithiwr addysg yn YOT yn rheoli digwyddiad criced blynyddol ar y cyd â gwasanaeth ieuenctid yr awdurdod lleol a Chlwb Criced Morgannwg oedd yn cynnig cyfle i blant a phobl ifanc gael hyfforddiant criced.

Cryfderau:

- Roedd y YIP yn darparu gwahanol ymyriadau wedi'u targedu.
- Roedd y gweithiwr ar y cyd gydag unedau preswyl eisoes wedi bod cael peth llwyddiant.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Ychydig iawn o ymyriadau penodol sydd ar gyfer anghenion genethod a merched ifanc, a grwpiau ethnig lleiafrifol.

2.3 Deilliannau ar gyfer y rhai mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod y rhai sydd mewn risg o droseddu ac yn ymwneud ag ymyriadau yn cymryd rhan mewn gweithgaredd er mwyn lleihau eu risg o droseddu.*

Roedd yr holl brosiectau 'Sblash yr Haf' yn cael eu gwerthuso'n rheolaidd i weld eu heffaith ar droseddu. Hefyd roedd craffu ar sail reolaidd ar y YIP gan wahanol ffynonellau. Roedd yn amlwg o drafod gyda'r Rheolwr Prosiect ei bod yn gyfarwydd iawn â'r broses archwilio a ddigwyddodd drwy'r cyfarfod uwch reoli chwarterol a fynychwyd gan Reolwr Rhanbarthol Lleihau Trosedd ac a gadeiriwyd gan y Rheolwr YOT.

Lleisiodd staff YOT bryder am ddiffyg cefnogaeth ar gael i blant a phobl ifanc ar derfyn ymyriadau gan y YOT, yn arbennig ar gyfer y rhai sy'n debygol o ail droseddu. Roedd ymyriadau pellach ar gyfer y rhai gydag anawsterau dysgu neu ymddygiad ar gael drwy seicolegydd o'r Ymddiriedolaeth GIG leol. Roedd gwasanaethau cymdeithasol yn cydnabod na allant ar hyn o bryd gynnig gwasanaethau ataliol eraill i blant a phobl ifanc. O ganlyniad roedd tuedd gan weithwyr YOT i barhau â'r ymyriadau ar

gyfer y plant a'r bobl ifanc hyn yn hwy nac a nodid yn benodol yn nhermau'r ymyriadau.

Cryfder:

- Dylai Prosiect y Ddraig, o gael ei ddefnyddio'n llawn, allu helpu gydag ymyriadau sydd wedi'u targedu ar gyfer plant a phobl ifanc, a'u teuluoedd.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Dylai'r YOT gasglu gwybodaeth am y plant a'r bobl ifanc hynny sydd mewn angen fel a ddisgrifir uchod, ar gyfer trafod ymhellach gyda Phartneriaeth Pobl Ifanc, er mwyn datblygu ymyriadau mwy priodol ar eu cyfer.

Arfer da

Mae Prosiect y Ddraig yn enghraifft o arfer da lle mae gwahanol asiantaethau'n rhannu gwybodaeth er lles pawb. Dylai'r wybodaeth helpu'r YOT i dargedu'n well y plant a'r bobl ifanc er mwyn atal troseddu neu ail droseddu.

ASESIAD CYFFREDINOL O WAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC MEWN RISG O DROSEDDU

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn foddhaol.

3. PLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU

3.1 Asesu plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Cynhelir asesiadau cynhwysfawr o anghenion plant a phobl ifanc sydd wedi troseddu, yn ôl y cyfnodau sy'n angenrheidiol gan safonau cenedlaethol a chanllawiau ynghylch arferion effeithiol.*
- *Asesir yn llawn y risg o niwed i eraill.*
- *Asesir yn llawn, y risg o niwed i'r hunan neu i eraill.*
- *Ysgrifennu cynlluniau goruchwylio yn unol â safonau cenedlaethol, yn deillio o ASSET ac yn cynnwys amcanion SMART.*
- *Asesiadau i roi sylw i anghenion criminogenig, fel iechyd ac ETE, a chymryd i ystyriaeth wahaniaethau diwylliannol, amrywiaeth a diogelu plant a phobl ifanc.*
- *Bod ASSET yn cael ei ddiweddaru yn unol â safonau cenedlaethol a bod canllawiau arferion gwaith effeithiol ar adegau perthnasol yn ystod cyswllt gyda phlentyn neu berson ifanc.*
- *Cynnal asesiadau arbenigol o'r rhai ag anghenion penodol neu rai sydd wedi'u hasesu fel risg o niwed i eraill.*
- *Bod adnoddau wedi'u pennu a bod gallu i gwrdd ag anghenion sydd wedi'u hasesu.*

Gwelwyd bod asesiadau cychwynnol yn cael eu cwblhau mewn 77% o'r achosion a archwiliwyd. Nid oedd adolygiadau ac ASSETau terfynol yn cael eu gwneud yn briodol bob amser, gyda rhai'n syml iawn yn ddyblygiadau o'r drefn wreiddiol. Roedd yn amlwg bod rhai staff yn edrych ar ASSET fel pro fforma yn hytrach nac fel dull i'w helpu gyda'u hymyriadau gyda phlentyn neu berson ifanc a oedd, gwaetha'r modd, weithiau'n cael cefnogaeth i'r agwedd hon gan reolwyr.

Yn dilyn EPQA cenedlaethol ASSET gan y YJB, fe gymerodd YOT Caerdydd ran yn y Prosiect Gwella Asesu, a gychwynnwyd hefyd gan y YJB, a adroddwyd yn Rhagfyr 2003. Mae'r prosiect yn nodi anawsterau cwblhau asesiadau ar rybuddion terfynol, yn sgil oedi o ran hysbysu gan yr heddlu, y dylid ei ddatrys trwy gyflwyno cynlluniedig clinig rhybudd terfynol. Nodwyd hefyd ' bod y tîm yn dal i ddibynnu'n fawr ar ryw hwb funud olaf i ganfod yr ASSETau sydd eu heisiau ac nid yw cwblhau ASSETau wedi'i ymgorffori mewn arfer'. Roedd y materion hyn wedi cael eu hystyried yn ddwys ac roedd hyfforddiant wedi'i ddarparu, er, fel y gwelir o'n sylwadau uchod, mae angen mwy o waith o hyd. Er hynny, yn ystod cyfnod y prosiect, fe lwyddodd y YOT i gyflawni pedwar allan o'r pum targed a osodwyd gan y YJB gan wella ei berfformiad o 53% a 12.4% am ASSETau

cychwynnol a therfynol ar gyfer ymyriadau cymunedol, i 92% a 95% ac i 100% i bob un a Gorchymyn Cadw a Hyfforddiant (DTO) a gwblhawyd.

Roedd yn ymddangos bod peth ansicrwydd ynghylch cwblhau'r risg llawn yn ymwneud â newid yn yr ASSET. Roedd Rheolwyr yn cydnabod bod angen i'r YOT ddatblygu a monitro ei arferion yn y maes hwn. Gwelwyd bod rhai aelodau o staff yn drysu rhwng bod mewn sefyllfa ddiamddiffyn a bod mewn risg o niwed, a hyd yn oed ar ôl ymgynghori gyda rheolwyr ar achosion, nid oed eu hymwneud yn cael ei gofnodi bob amser ar YOIS.

Roedd yr ASSET a gwblhawyd yn codi nifer o anghenion criminogenig penodol, fel iechyd ac ETE, ac yn sgil hynny trefnwyd cyfeiriadau i'r gwahanol weithwyr arbenigol a oedd yna'n gwneud eu hasesiad eu hunain. Nid oedd arferion bob amser yn gyson gan mai un gweithiwr addysg yn unig oedd yn cyfrannu at gwblhau ASSET. Roedd y gweithwyr addysg mewn cysylltiad â nifer o'r plant a'r bobl ifanc, ond roeddent yn cael eu llesteirio yn eu gwaith gan nad oedd ganddynt fynediad i'r System Rheoli Addysg a'r unig ffordd o gael gwybodaeth unigol am blant a phobl ifanc oedd drwy gyswllt personol gyda chyn gydweithwyr addysg. Roedd angen i'r mater hwn gael sylw.

Nid oedd YOTau Cymru wedi gweithredu Canllawiau Asesu Iechyd Meddwl YJB (2003) felly roedd gweithwyr iechyd yn defnyddio eu dull asesu eu hunain, nad oedd yn rhan o'r ASSET craidd. Roeddent hefyd yn defnyddio Holiaduron Cryfderau ac Anawsterau (SDQ), oedd wedi'i ddatblygu gan rai o YOTau Gogledd Cymru, oedd yn canolbwyntio ar blant a phobl ifanc gydag anawsterau emosiynol a dysgu.

Cwblhawyd cynlluniau goruchwylio cychwynnol yn unol â'r safon genedlaethol mewn 63% o achosion. Roedd arferion yn amrywio'n helaeth ac ar adegau, roedd yn syrthio'n is na'r safon ofynnol. Er enghraifft, roedd rhai aelodau o staff yn defnyddio'r Adroddiad Cyn-Dedfrydu (PSR) fel y cynllun goruchwylio ac roedd o leiaf un ddim yn gwybod beth oedd cynllun goruchwylio. Dim ond 39% o'r cynlluniau goruchwylio oedd yn cynnwys amcanion SMART a phrin oedd y dystiolaeth fod y rhain yn cael eu rhannu â'r plant a'r bobl ifanc neu â'u teuluoedd neu eu bod yn cytuno â hwy, ac eithrio yn ystod camau cychwynnol y PSR. Dywedodd rhai staff nad oedd templedi cynllun goruchwylio cynnar bellach yn cael eu defnyddio ar ôl sefydlu YOIS ac nad oedd wedi'i gyfnewid am y fersiwn electronig ar y system.

Cryfderau:

- Mae'r YOT wedi dangos gwelliant sylweddol o ran cwblhau ASSETau.
- Roedd adnoddau wedi cael eu datblygu ac yn dal i gael eu datblygu. Roedd rhai o'r rhain yn manteisio ar gyfleon ac yn ymateb i gyllid ar gael. Roedd peth tystiolaeth bod ymchwil ASSET wedi arwain at ddatblygu rhai ymyriadau, gan gynnwys Cynllun Gwobrau Dug Caeredin ac INCLUDE.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid yw'r YOT eto wedi datblygu dull cyson o ran cwblhau asesiadau a sefydlu system fonitro a gwerthuso trwyadl.
- Mae angen ail edrych ar yr asesiadau risg er mwyn sicrhau bod cyd ddealltwriaeth gan staff a rheolwyr o'r broses gwblhau a monitro.
- Mae angen rhoi ystyriaeth i fewnbwn cyson gan yr holl asiantaethau partner i'r broses ASSET.
- Mae angen ail-archwilio cynlluniau goruchwylio a chytuno ar fformat cyffredin.
- Nid oedd yn ymddangos bod ystyriaeth ddigonol yn cael ei rhoi i amrywiaeth ac roedd rhai aelodau o staff yn bryderus am eu diffyg gwybodaeth eu hunain, yn arbennig am anghenion penodol grwpiau ethnig lleiafrifol.

3.2 Ymyriadau ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod ymyriadau:*
  - *wedi'u targedu mewn meysydd o angen a aseswyd fel addysg, iechyd a pherthynas â rhieni, ayb*
  - *ar gael sydd yn benodol i anghenion ac ymddygiad tramgwyddus genethod a merched ifanc, plant a phobl ifanc o grwpiau lleiafrifol ethnig, y rhai ag anableddau gan ystyried diogelu plant a phobl ifanc*
  - *yn gyson gydag egwyddorion arferion gwaith effeithiol.*
- *Bod amlder yr apwyntiadau yn gyson gyda safonau cenedlaethol a chanllawiau'r Swyddfa Gartref/Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid ar gyfer rhybuddion terfynol, gorchmynion cyfeirio, cosbau cymunedol, DTO (yn y ddalfa ac ar ôl hynny) ac ISSPau (pan fônt yn bodoli).*
- *Bod gorfodi'n digwydd pan na fydd unigolion yn cydymffurfio.*

Gwelwyd bod ymyriadau priodol, yn nhermau'r risg bosibl o niwed gan y plentyn neu berson ifanc neu eu tebygolrwydd o aildroseddu, ar gyfer 78% o'r achosion a archwiliwyd. Gwnaed cryn ymdrech mewn rhai achosion i roi sylw i anghenion penodol, lle'r oeddent wedi'u nodi, yn arbennig mewn perthynas â materion addysgol ehangach. Roedd ymyriadau iechyd gan staff o fewn y YOT ar y cyfan yn effeithiol, ond roedd mynediadau i adnoddau mwy arbenigol, fel CAMHS, yn gyfyngedig. Roedd ymyriadau arbenigol, fel y Prosiect Taith, yn cael eu defnyddio ac roedd yn darparu gwasanaeth effeithiol.

Ychydig o ymyriadau a welwyd ar gyfer genethod neu ferched ifanc, plant anabl a phobl ifanc neu rai o grwpiau ethnig lleiafrifol, er bod gan staff addysg brofiad o weithio gyda phlant anabl a phobl ifanc a phlant teithwyr.

Roedd angen rhoi mwy o sylw i gydymffurfio â safonau cenedlaethol. Roedd amlder apwyntiadau a drefnwyd ac a gadwyd atynt yn cwrdd â gofynion y safon genedlaethol mewn 72% a 71% o achosion yn unig, ac eithrio cyswllt gyda phlant a phobl ifanc ar DTO a ISSP. Dim ond pedwar o'r 11 panel gorchmynion cyfeirio a gynhaliwyd o fewn yr amserlen a osodwyd gan y safon genedlaethol, gyda chwech ohonynt yn fwy na deng diwrnod yn hwyr. Aildrefnwyd un cyfarfod panel gorchmynion cyfeirio deirgwaith er mwyn sicrhau bod nifer digonol o aelodau'r panel yn bresennol. Treuliwyd llawer o amser swyddogion yn ymweld â phlant a phobl ifanc yn eu cartrefi, a theimlem y gellid gwneud defnydd helaethach o'r swyddfa, ar gyfer adrodd a gweithgareddau gwaith grŵp. Y cwrs rheoli tymer oedd yr unig grŵp, hyd a wyddom, a ddigwyddodd gyda'r nos, er hynny, roedd yr adeilad ar gau y rhan fwyaf o nosweithiau ar ôl 6.00pm.

Cymerwyd camau tor-amod mewn hanner yr achosion perthnasol yn unig a phenderfyniadau ynghylch derbyn absenoldebau a ystyriwyd yn briodol mewn 67% o achosion. Cafodd pryderon am orfodaeth eu nodi a'u codi gan asiantaethau eraill. Roedd un rheolwr yn cydnabod yn agored iddo roi blaenoriaeth isel i safonau cenedlaethol. Roedd rhai aelodau o staff i'w gweld yn anghyfarwydd â gofynion y safonau, tra bod eraill yn eu hystyried fel nod i gyrraedd atynt.

Er gwaethaf rhai enghreifftiau o arfer da a'r gwahanol wasanaethau ar gael, cawsom ein synnu'n fawr gan yr amharodrwydd a amlygwyd gan nifer o reolwyr achos i gael mynediad i ymyriadau a gâi eu darparu gan dimau eraill neu asiantaethau partner. Roedd rhai timau'n ymddangos yn ddistrwythur ac roedd tystiolaeth o arferion unigol. Ychydig o arferion rheolaidd, archwilio systematig neu fonitro gwaith oedd yn digwydd. Nid oedd dull rheoli achosion wedi'i fabwysiadu'n gyffredinol ac roedd rheoli perfformiad ymhell o gyrraedd yr arfer safonol, derbyniol. Roedd rhai staff YOT yn cael trafferth cysoni'r modelau lles a chyfiawnder troseddol.

Er hynny, roedd y ISSP yn eithriad i hyn a chawsom argraff dda gan ddiwylliant gorfodaeth drwyadl o fewn y tîm, eglurder y negeseuon a gyflëwyd i'r plant a'r bobl ifanc a lefel yr ymwneud cadarnhaol.

Cryfderau:

- Gwnaed ymdrech sylweddol mewn rhai achosion i roi sylw i anghenion penodol plant a phobl ifanc.
- Roedd y ISSP i'w weld yn gweithio'n dda.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Nid oedd rhai staff yn gwneud defnydd digonol o'r gwahanol wasanaethau ar gael, ac roedd yn well ganddynt weithio gyda phlant a phobl ifanc yn uniongyrchol.
- Roedd angen i staff a rheolwyr roi mwy o sylw i gydymffurfio â safonau cenedlaethol, yn arbennig mewn perthynas â lefelau cyswllt a gorfodaeth.

- Roedd mynediad i wasanaethau prif lif ar gyfer iechyd ac addysg yn gyfyngedig.

3.3 Deilliannau o ran gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod y maes yn dangos lleihad o ran aildroseddu ar gyfer yr holl gosbau (cyn-llys, haen gyntaf, cosbau cymunedol a bod yn y ddalfa).*
- *Bod ASSETau terfynol yn dangos lleihad mewn ffactorau risg.*
- *Bod adroddiadau perthnasol am ddeilliannau gan blant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr a phobl berthnasol eraill yn dangos deilliannau cadarnhaol.*
- *Bod amcanion cynllun goruchwylio wedi'u cwrdd mewn meysydd o angen a aseswyd.*

Roedd tystiolaeth o weithio llwyddiannus gyda phlant a phobl ifanc oedd wedi troseddu yn anghyson. Roedd yn amlwg o'r gwaith archwilio a wnaed o'r ffeiliau achos, gyda nifer yn dangos arddulliau unigol y gweithwyr, ac o ddiffygion a welwyd mewn cynlluniau goruchwylio, y byddai staff a rheolwyr yn cael cryn anhawster i asesu eu heffeithiolrwydd eu hunain.

Gwelwyd nifer cyfyngedig o blant a phobl ifanc yn ystod yr ymchwiliad, gyda phawb ar y cyfan yn gadarnhaol ynglŷn â'u cyswllt gyda'r YOT. Roedd tystiolaeth o aildroseddu mewn 29% o'r achosion a archwiliwyd ac roedd 66% yn cydymffurfio'n fras â thelerau eu gorchymyn/trwydded. Er nad yw'r ffigurau hyn yn awgrymu hunanfodlonrwydd, maent i'w cymharu â rhai a ganfuwyd mewn lleoedd eraill.

Roedd tri deg dau y cant o'r adolygiad a'r ASSETau terfynol a archwiliwyd, yn dangos lleihad yn y ffactorau risg. Roed y ffigur yn is na'r disgwyl, ond rydym yn cydnabod fod y sgoriau uwch yn yr ASSETau mwy diweddar yn gallu adlewyrchu gwell gwybodaeth o anghenion yr unigolyn. Wrth archwilio'r gwaith a wnaed ar wahanol ffactorau criminogenig, roedd er hynny yn syndod gweld bod rhyw fath o ymyriadau wedi digwydd mewn 15 allan o 29 achos yn unig lle'r oedd agwedd y plentyn neu'r person ifanc tuag at droseddu wedi'i adnabod fel ffactor allweddol. O blith yr achosion hyn, saith yn unig oedd i'w weld wedi ymateb yn gadarnhaol. Yn yr un modd, er bod gwaith wedi'i wneud gyda'r holl achosion perthnasol lle'r oedd cymhelliad y plentyn neu'r person ifanc tuag at newid yn ystyriaeth o bwys, ychydig oedd yn dangos arwyddion o gynnydd. Yr unig faes lle gwelwyd gwelliannau sylweddol oedd mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau.

Cryfder:

- O blith 21 achos lle'r oedd camddefnyddio sylweddau wedi'u darganfod yn broblem, roedd 12 yn dangos arwyddion o wella.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Prin oedd yr wybodaeth ar gael i farnu effeithiolrwydd ymyriadau.

ASESIAD CYFFREDINOL AM Y GWAITH GYDA PHLANT A PHOBL IFANC SY'N TROSEDDU

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn rhannol.

4. GWEITHIO GYDA RHIENI/GOFALWYR

4.1 Asesu anghenion rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod asesiad o sgiliau magu plant gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu sydd mewn risg o droseddu wedi'i wneud ac yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu at unrhyw ymyriadau.*

Nid oedd yno strategaeth glir ynghylch gweithio gyda rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc oedd wedi troseddu neu a oedd mewn risg o droseddu. Nid oedd y YOT yn ymgymryd ag asesiadau magu plant ar hyn o bryd, er bod Cynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid yn nodi bod y maes yma'n un yr oedd angen ei ddatblygu. Er bod mwy na 80% o rieni/gofalwyr yn y ffeiliau a archwiliwyd gan yr arolygwyr wedi cyfrannu at gwblhau ASSET, ni wnaed asesiad ffurfiol o'u hanghenion penodol.

Cryfder:

- Roedd rhieni/gofalwyr yn cael cynnwys yn y gwaith o gwblhau ASSETau.

Meysydd sydd angen eu gwella:

- Roedd angen rhoi mwy o sylw i asesu sgiliau magu plant.
- Nid oedd y rhan fwyaf o'r staff wedi cael eu hyfforddi i ymgymryd â'r gwaith yma.

4.2 Ymyriadau gyda rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod ymyriadau ar gael ac y manteisir arnynt gan rieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd naill ai'n troseddu neu mewn risg o droseddu yn unol ag angen sydd wedi'i asesu.*
- *Bod ymyriadau magu plant yn cael eu darparu sy'n briodol i gefndir,diwylliant, ethnigrwydd, anghenion ieithyddol, lefelau llythrennedd a rhyw rieni/gofalwyr.*

Nid oedd y YOT yn rhedeg ei raglenni magu plant ei hun. Roedd dau aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant ac fe brynwyd ystod o raglenni hyfforddi

tua dwy flynedd yn ôl. Nid oedd y rhain wedi cael eu datblygu, er bod rhai rhannau o'r rhaglen wedi cael eu defnyddio gyda rhieni/gofalwyr unigol. Roedd gan y YOT hefyd gytundeb gyda dwy asiantaeth gwirfoddol mawr i gael mynediad i'w rhaglenni gwaith grŵp ar gyfer rhieni/gofalwyr, ond nid oedd yn ymddangos bod y cyfleuster yma'n wybyddus iawn i staff y YOT ac nid oedd yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd.

Felly dim ond ychydig o orchmynion magu plant a wnaed a dywedwyd wrthym gan gynrychiolwyr y llys fod hyn oherwydd eu bod yn ymwybodol o'r diffyg rhaglenni magu plant oedd ar gael. Dim ond pedwar o rieni/gofalwyr o'r 80 ffeil achos a archwiliwyd yn ystod yr archwiliad oedd wedi ymwneud ag unrhyw ffurf o orchymyn magu plant. Fe ddywedodd staff y YOT ac asiantaethau partner eraill, fodd bynnag, eu bod yn cynnwys rhieni/gofalwyr mewn ymyriadau gyda phlant a phobl ifanc, ac yn darparu cyngor a chefnogaeth.

Yn ddiweddar roedd y YOT wedi hysbysebu am gydlynydd magu plant, ac roedd disgwyl i'r cydlynydd yma ddatblygu mynediad i raglenni magu plant.

Cryfder:

- Roedd staff yn ymwybodol o'r angen i gynnwys rhieni/gofalwyr a chroesawyd datblygiad swydd cydlynydd magu plant.

Maes sydd angen ei wella:

- Roedd angen ystod o ymyriadau i ddarparu rhaglenni grŵp ac unigol, ac i ymdrin â natur amrywiol rhieni/gofalwyr, yn cynnwys rhai o grwpiau lleiafrifoedd ethnig.

4.3 Deilliannau o ran rhieni/gofalwyr of plant a phobl ifanc sy'n troseddu neu mewn risg o droseddu

Maen prawf yr archwiliad

- *Bod deilliannau boddhaol yn sgil ymyriadau ar gyfer rhieni/gofalwyr.*

Ar hyn o bryd nid yw'r YOT yn darparu unrhyw wybodaeth i'r YJB ynglŷn â'r targed yma.

Nid oedd arolygwyr yn gallu canfod tystiolaeth bendant o unrhyw ddeilliannau ond fe dderbyniwyd rhai sylwadau cadarnhaol gan rieni/gofalwyr.

Cryfder:

- At ei gilydd, roedd rhieni/gofalwyr yn gadarnhaol ynglŷn â'u hymwneud â'r YOT, ac fe ddylai hynny osod sylfaen gadarn ar gyfer symud ymlaen gydag ymyriad mwy ffurfiol gyda rhieni/gofalwyr.

Maes sydd angen ei wella:

- Dylai'r datblygiadau arfaethedig yn y maes yma sicrhau bod yno brosesau gwerthuso a monitro cadarn.

Arfer da

Sylwadau gan rieni/gofalwyr:

- *"Maen nhw wedi gwneud popeth i'm cefnogi pan oedd angen cefnogaeth arnaf."*
- *"Roedd Barnardos yn galw heibio unwaith yr wythnos i'm helpu, mae'n dda iawn. Roedd hyn ar adeg oedd yn gyfleus i mi. roedd yn ffitio i fewn gyda'm gwaith rhan amser."*

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWEITHIO GYDA RHIENI/GOFALWYR

Bernir bod yr adran hon wedi'i chwrdd yn rhannol.

5. GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR

5.1 Asesu anghenion y rhai sy'n dioddef yn sgil plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Dylai asesiad o anghenion dioddefwyr gael ei wneud a'i ddefnyddio i gyfrannu at ymyriadau a gynlluniwyd.*
- *Rhoddir cyfle i'r holl ddioddefwyr wneud penderfyniadau cytbwys am eu rhan mewn achosion o blant a phobl ifanc sy'n troseddu a'u bod yn cael cefnogaeth yn hynny o beth.*

Ar adeg yr archwiliad nid oedd yno Swyddog Cyswllt Dioddefwyr (VLO), er bod y swydd wedi ei hysbysebu'n ddiweddar. Ar hyn o bryd, roedd yr heddlu oedd yn aelodau o'r YOT yn cael gwybodaeth o'r uned troseddau ac yn pasio'r wybodaeth ymlaen i'r rheolwr achos a fyddai wedyn yn cysylltu â'r dioddefwr. Roedd gan y dioddefwr ddewis i ymateb neu beidio ar ôl y cyswllt cychwynnol.

Ychydig o dystiolaeth a gafwyd o ymweliad gan y YOT â dioddefwyr, ac eithrio rhybuddion terfynol a gorchmynion cyfeirio. Yn yr un modd, ni chafwyd tystiolaeth o asesiad ffurfiol o anghenion dioddefwyr.

Cryfder:

- Hysbysebwyd am swydd VLO.

Maes sydd angen ei wella:

- Nid oedd gweithio gyda dioddefwyr wedi'i ddatblygu'n ddigonol.

5.2 Ymyriadau gyda dioddefwyr plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Meini prawf yr archwiliad

- *Bod gan ddioddefwyr naill ai fynediad i gefnogaeth a ddarperir yn uniongyrchol gan y YOT neu eu bod yn cael eu hysbysu o ddarparwyr gwasanaeth perthnasol.*
- *Cynnig i ddioddefwyr y cyfle i nodi unrhyw elfen adferol yng nghynllun goruchwylio.r plentyn neu'r person ifanc a chael eu* hysbysu o'u cynnydd.
- *Bod ymyriadau gyda dioddefwyr ar gael sy'n briodol I'w hoedran, sefyllfa ddiamddiffyn, ethnigrwydd, anghenion ieithyddol, lefelau llythrennedd a rhyw.*

Roedd y YOT yn cydnabod mai dim ond cychwyn gweithio gyda dioddefwyr yr ydoedd. Roedd y ffeil a ddarllenwyd yn dangos bod dioddefwyr wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan neu wedi cael ymgynghoriad ar waith cyfiawnder adferol gyda'r plentyn neu berson ifanc mewn llai na 40% o'r ffeiliau achos a archwiliwyd. Ymgynghorwyd â llai na 30% ar unrhyw waith arall gyda'r plant neu'r bobl ifanc. Nid oedd yn ymddangos fod yno unrhyw gyswllt â gwasanaethau eraill i ddioddefwyr.

Ychydig o gyswllt a gafwyd gyda dioddefwyr. Er gwaethaf ymdrechion gweinyddydd y panel gorchymyn cyfeirio, gyda chyfrifoldebau a gyfyngwyd i drefnu cyfarfodydd, ychydig o ddioddefwyr a fynychodd gyfarfodydd panel. O bosib fel canlyniad, roedd y cyfarfodydd a arsylwyd gennym yn ymddangos fel pe baent yn rhoi gormod o bwyslais ar brofiad y plentyn neu'r person ifanc a oedd wedi troseddu, o'i gymharu â phrofiad y dioddefwr. Er hynny, fe welwyd un enghraifft o ymyriad addas iawn lle rhoddwyd y dioddefwr flaenaf, a lle'r oedd y dioddefwr yn rhiant/gofalwr i'r plentyn neu berson ifanc dan sylw. Mewn trafodaeth gyda'r dioddefwr, cytunwyd ar iawn uniongyrchol ac fe oruchwyliwyd hynny yn bennaf gan y dioddefwr.

Roedd Rheolwr y YOT, mewn cydweithrediad â Rheolwr Gweithrediadau ar gyfer unedau preswyl yng Nghaerdydd, wedi datblygu Cynllun Cyflafareddu. Nod y cynllun hwn oedd atal Plant Dan Ofal rhag cael eu dal yn y gyfundrefn cyfiawnder troseddol am droseddau a gyflawnwyd mewn unedau preswyl. Roedd yn cynnig cyflafareddu rhwng plentyn neu berson ifanc a'r dioddefwr, ac roedd yn ceisio canfod ateb oedd yn dderbyniol i bob ochr. Dywedodd y Rheolwr Gweithrediadau wrth yr arolygwyr bod y broses o ddatblygu'r prosiect eisoes wedi arwain at ostyngiad sylweddol yn y troseddau a gofnodwyd.

Maes sydd angen ei wella:

- Dylai'r panel gorchymyn cyfeirio sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion y plentyn neu'r person ifanc sydd wedi troseddu ac anghenion y dioddefwr.

5.3 Deilliannau ar gyfer y rhai sy'n dioddef yn sgil plant a phobl ifanc sy'n troseddu

Maen prawf yr archwiliad

- *Bod dioddefwyr yn fodlon gyda'r gwaith a wneir gan y YOT.*

Ni chafwyd unrhyw wybodaeth yn ôl i'r YJB gan y YOT mewn perthynas â'r targed ar foddhad dioddefwyr. Yn yr un modd, nid oeddem yn gallu cyfweld unrhyw ddioddefwyr ac felly nid ydym yn gallu cynnig sylw ar y maen prawf yma.

Maes sydd angen ei wella:

- Dylai'r datblygiadau a fwriedir ar gyfer y maes yma sicrhau prosesau gwerthuso a monitro cadarn.

ASESIAD CYFFREDINOL AR GYFER GWEITHIO GYDA DIODDEFWYR

Bernir bod yr adran hon heb ei chwrdd.

Archwiliad ar y cyd o Dimau Troseddu Ieuenctid (YOTau)

Cyhoeddodd y Llywodraeth ei fod yn sefydlu archwiliad annibynnol o YOTau yn Rhagfyr 2002. Mae'r rhaglen archwilio i'w chynnal ar y cyd rhwng y Comisiwn Archwilio, Comisiwn Archwilio Gofal Cymdeithasol, Estyn, Comisiwn Gofal Iechyd, Arolygiaeth Heddlu ei Mawrhydi, Arolygiaeth Carchardai ei Mawrhydi, Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi, Swyddfa Safonau mewn Addysg, ac Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Mae'r archwiliad ar y cyd wedi'i leoli o fewn Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi ac fe'i cyllidir gan y Swyddfa Gartref.

Amcanion y Swyddfa Gartref

Mae'r archwiliad ar y cyd yn cyfrannu'n bennaf tuag at gyflawni Amcanion 3 a 4 y Swyddfa Gartref i:

- 'ddarparu dedfrydau o garchar a dedfrydau cymunedol effeithiol er mwyn lleihau aildroseddu ac i amddiffyn y cyhoedd, drwy wasanaethau'r carchar a'r gwasanaeth prawf, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid'
- 'sicrhau y darperir yn effeithiol gyfiawnder, gan osgoi unrhyw oedi diangen, drwy archwilio, ganfod, erlyn a gweithdrefnau llys effeithiol. I leihau'r bygythiad a'r ofn i ddioddefwyr ac i ymwneud â dioddefwyr a'u cefnogi'

Diben yr archwiliad ar y cyd yw adrodd i'r Ysgrifennydd Gwladol a, thrwyddo, i'r Senedd a'r cyhoedd, ar effeithiolrwydd YOTau o ran cyflawni eu dyletswyddau statudol i atal troseddu gan blant a phobl ifanc, a thrwy hynny amddiffyn y cyhoedd, gan ddiogelu eu hawliau a hybu eu lles yr un pryd.

Amcanion y rhaglen yw:

- asesu'r effaith a wneir gan YOTau a chyrff partner ar atal troseddu gan blant a phobl ifanc drwy oruchwylio effeithiol
- gwerthuso'r gwaith a wneir gan YOTau a chyrff partner i gwrdd ag anghenion plant a phobl ifanc mewn risg o droseddu a'u galluogi i fyw bywydau adeiladol sy'n parchu'r gyfraith
- gwerthuso rôl YOTau o ran diogelu hawliau a hybu lles plant a phobl ifanc
- asesu i ba raddau y mae'r YOTau yn cwrdd â gofynion y targedau angenrheidiol a osodwyd gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid
- hybu arfer da o ran trefniadau rheoli YOTau a darparu gwasanaeth i'r llysoedd a'r gymuned
- adnabod tan berfformio a gwneud argymhellion i hybu gwelliannau
- gwerthuso'r defnydd effeithiol o adnoddau

- hybu'n weithgar gydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth fel rhan annatod o'r broses archwilio
- paratoi adroddiadau amserol sy'n cyfrannu at wella perfformiad trwy ychwanegu at bolisi ac arfer.

Côd ymarfer

Bydd pob archwiliad yn:

- cael ei gynnal gyda gonestrwydd mewn modd proffesiynol, diduedd a chwrtais
- fodd i ddatblygu barn annibynnol, yn seiliedig ar dystiolaeth
- ceisio symbylu ac ymwneud â staff
- hybu cydraddoldeb hiliol ac amrywiaeth drwy ei brosesau
- yn cael ei gwblhau trwy gyhoeddi adroddiad amserol yn cynnwys casgliadau ac argymhellion ar gyfer gwella.

Dylai unrhyw un sy'n dymuno gwneud sylwadau ar archwiliad, adroddiad neu unrhyw fater arall o fewn cyfrifoldeb y rhaglen archwilio ysgrifennu at:

HM Chief Inspector of Probation
2nd Floor, Ashley House
2 Monck Street
London SW1P 2BQ

Trefniadau'r archwiliad

- Dechreuodd y rhaglen archwilio ar y cyd ym Medi 2003, yn dilyn dau archwiliad peilot. Mae'r 155 o YOTau yn Lloegr a Chymru i gael eu harchwilio dros gylch o bump i chwe blynedd. Gan fod hon yn rhaglen archwilio hir, penderfynwyd ei rhannu'n dri chyfnod er mwyn sicrhau ei bod yn berthnasol a'i bod yn parhau i ystyried pryderon lleol a chenedlaethol. Y tri chyfnod yw:
  - **O Fedi 2003 i Orffennaf 2004**, pan fydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar brif faterion, gyda phwyslais ar sefydlu meincnodau a lledaenu arfer da. Gofynnir i YOTau wirfoddoli ar gyfer y cyfnod hwn o'r broses
  - **Hyd at Fedi 2006**, yn ystod pryd y bydd archwiliadau'n cael eu teilwra'n unigol i bob YOT, yn seiliedig ar archwilio'r data ar gael a'r casgliadau o raglenni archwilio eraill
  - **O Fedi 2006 ymlaen**, pan fydd yr archwiliad yn canolbwyntio ar yr hyn a gyflawnir yn erbyn targedau, yn arbennig o ran cynyddu perfformiad cyffredinol a sicrhau cysondeb o ran arferion.
- Bydd yr archwiliad yn cael ei gynnal yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i gynnal archwiliadau cymesur a chydlynol mewn llywodraeth leol, sy'n elwa o ganlyniadau Asesiad Perfformiad Cynhwysfawr a Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella. Felly rydym wedi datblygu rhaglen fydd:
  - yn gymesur i risg ac yn archwilio'n unig y meysydd hynny o waith lle mae tîm yn perfformio'n dda er mwyn lledaenu arfer da
  - yn ategu, ac yn cydlynu â rhaglenni archwilio eraill, gan gynnwys y rhai sydd ar hyn o bryd yn cael eu datblygu yn dilyn cyhoeddi'r Papur Gwyrdd, *Every Child Matters* (2003)
  - yn cymryd i ystyriaeth ddatblygiad diweddar YOTau fel cyrff.
- Mae safonau a meini prawf cynhwysfawr wedi'i datblygu i gynnwys y cyfnod cyntaf o'r archwiliad, yn canolbwyntio ar:
  - **drefniadau rheoli a phartneriaeth**
  - **plant a phobl ifanc a ystyrir o fod mewn risg o droseddu**
  - **plant a phobl ifanc sy'n troseddu**
  - **rhieni/gofalwyr plant a phobl ifanc sydd mewn risg o droseddu neu sy'n troseddu**
  - **dioddefwyr.**
- Bydd pob ymweliad safle yn ystod y cyfnod cyntaf yn digwydd dros gyfnod o bythefnos, dwy neu dair wythnos ar wahân. Byddwn yn gofyn i YOT adnabod sampl gynrychioliadol ystadegol ar hap o rhwng 50 a 120 o blant a phobl ifanc (yn dibynnu ar y llwyth gwaith) sydd wedi bod yn agored i ryw ffurf o ymyrraeth yn y misoedd blaenorol. Bydd yr achosion yn cynnwys y rhan fwyaf o orchmynion, yn cynnwys trwyddedau.
- Yn ystod yr wythnos gyntaf o'r ymweliad safle, byddwn yn archwilio'r holl ffeiliau achos hyn yn fanwl. Byddwn hefyd yn achos hanner yr

achosion a ddetholwyd, yn cynnal cyfweliadau manwl gyda'r rheolwr achos, ac unrhyw unigolyn sydd wedi ymwneud yn sylweddol mewn darparu ymyriadau a lle bo'n bosib, gyda'r plentyn neu'r person ifanc ei hun a'i rieni/gofalwyr. Lle bo hynny'n briodol, byddwn hefyd yn gobeithio cwrdd a chlywed gan y rhai sydd wedi dioddef yn sgil troseddu gan blant a phobl ifanc a oruchwylir gan y YOT.

- Er mwyn hybu hunan-asesu a chynyddu perchnogaeth casgliadau'r archwiliad, byddwn yn gwahodd YOTau i secondio aelod o'u staff, fel arfer ymarferydd profiadol, i'r tîm archwilio am gyfnod yr wythnos o ddarllen ffeiliau. Rydym yn credu bod hyn yn gallu bod yn ffordd gadarnhaol o ddatblygu cyd-ddealltwriaeth ac mae'n helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr archwiliad a'r arferion.
- Bydd yr ail wythnos o'r archwiliad yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r Prif Weithredwr, aelodau'r Bwrdd Rheoli, rheolwr a staff YOT. Bydd yn cynnwys y rheolaeth o'r YOT, ei berfformiad a'r cyfraniad a wneir gan ei gyrff partner. Bydd y casgliadau a wnaed yn sgil archwilio ffeiliau achos yn ystod wythnos gyntaf yr archwiliad yn cyfrannu at y trafodaethau.
- Bydd casgliadau'r archwiliad yn cael eu cynnwys mewn adroddiad a fydd yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwella. Bydd yr argymhellion hyn cael eu cynllunio i hybu'r YOT yn ei waith, i gefnogi'r arfer da ac i hybu gwelliannau.
- Cyflwynir yr adroddiad i'r Ysgrifennydd Cartref, fel yr Ysgrifennydd Gwladol yn gyfrifol am gyfiawnder ieuenctid, gyda chopïau yr un pryd i'r Ysgrifenyddion Addysg ac Iechyd a lle bo'n briodol, i'r Gweinidogion Addysg a Dysgu Gydol oes, Cyllid, Llywodraeth leol a Chymunedau a Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru. Bydd copïau ar gael hefyd i'r wasg ac ar wefan Arolygiaeth Prawf ei Mawrhydi yn:

  http://www.homeoffice.gov'uk/justice/probation/inspprob

Gwnaed gwaith maes ar gyfer yr archwiliad hwn yn 2004.

- Cychwynnodd yr wythnos o ddarllen ffeiliau ar 5 Ionawr.
- Cychwynnodd yr ail wythnos ar 26 Ionawr.

Dull sgorio

Mae pum adran yr archwiliad yn cael eu hasesu'n unigol yn erbyn safonau perthnasol, gan ddefnyddio meini prawf cefnogol. Bernir ar sail:

- gwybodaeth a ddarparwyd gan y YOT
- cyfweliadau gyda phrif swyddogion, rheolwyr a staff o'r YOT a chyrff partner eraill
- darllen ffeiliau achos
- trafodaethau gyda rheolwyr achos a phobl eraill sy'n ymwneud yn sylweddol yn y broses oruchwylio
- persbectif plant a phobl ifanc, eu rhieni/gofalwyr, a lle bo'n bosibl, eu dioddefwyr.

Bernir fel a ganlyn:

- **Cwrdd yn llawn** . yn dynodi perfformiad eithriadol y tu hwnt i ofynion safonau cenedlaethol a chanllawiau perthnasol eraill
- **Cwrdd yn foddhaol** . perfformiad cryf ar y rhan fwyaf o'r eitemau ac o leiaf yn foddhaol o ran y gweddill, yn cwrdd â gofynion safonau cenedlaethol a chanllawiau perthnasol eraill
- **Cwrdd yn rhannol** . perfformiad llai na boddhaol ar y rhan fwyaf o eitemau
- **Heb eu cwrdd** . perfformiad annigonol ar y rhan fwyaf o eitemau.

Caniateir peth disgresiwn i arolygwyr sy'n arwain o ran addasu sgoriau os yw hyn yn briodol yn sgil casgliadau eraill neu dystiolaeth cyd-destunol.

Penderfynir ar yr asesiad cyffredinol ar sail yr hyn a fernir am adrannau unigol. Ni roddir unrhyw sgôr na gradd yn ystod y cyfnod cyntaf o'r broses archwilio, ond yn hytrach categoreiddir yn gyffredinol gan danlinellu unrhyw beth neilltuol sydd wedi'i gyflawni yn ogystal â meysydd ar gyfer gwella. Mae'r agwedd hon wedi'i mabwysiadu gan ein bod yn teimlo y byddai mecanwaith sgorio mwy caeth yn anaddas o ystyried natur ddatblygiadol gwaith y YOTau a'r ffaith mai yn gymharol ddiweddar y daeth y cyrff i fodolaeth.

Asesir perfformiad y YOT fel a ganlyn:

- **Cymeradwy** – mae perfformiad rheoli cryf a gwaith eithriadol gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, wedi'i gefnogi gan berfformiad boddhaol neu well mewn meysydd gwaith eraill
- **Da –** mae perfformiad boddhaol ar draws y pum adran
- **Boddhaol gyda sylfaen dda ar gyfer datblygu –** lle mae, o leiaf, y ddwy adran sy'n ymwneud â threfniadau rheoli a gwaith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, yn cael eu hasesu ar sail cwrdd yn foddhaol, er efallai yr ystyrir bod eraill yn unig wedi'u cwrdd yn rhannol neu heb eu cwrdd
- **Anfoddhaol ag angen gwella –** er bod rhai adrannau wedi'u cwrdd yn foddhaol, mae naill ai'r adran ar drefniadau rheoli neu waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu, wedi'i asesu – wedi'u cwrdd yn rhannol neu heb eu cwrdd
- **Gwael ag angen gwella sylweddol –** lle ystyrir nad yw'r adran ar drefniadau rheoli neu waith gyda phlant a phobl ifanc sy'n troseddu wedi'i gwrdd yn foddhaol.

Camau nesaf

- Gofynnir i'r YOT anfon ymateb i'r argymhellion, i'r arolygydd sy'n arwain, ynghyd â chynllun gweithredu o fewn tri mis o gyhoeddi'r adroddiad. Rhagwelir y bydd yr argymhellion gan amlaf yn cael sylw o fewn 12 mis o gyhoeddi er mwyn caniatáu digon o amser ar gyfer integreiddio o fewn datblygiadau presennol.
- Mae'r gwaith o weithredu'r argymhellion i'w fonitro gan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid. Nid yw'r rhaglen archwilio ar y cyd gan amlaf yn cynnwys unrhyw gamau dilynol oni bai fod materion yn codi yn ystod cwrs y rhaglen sydd mor bryderus fel bod angen sylw ar unwaith. Nid oes pryderon o'r fath wedi'u hamlygu yn archwiliad Caerdydd.
- Yn ogystal â'r adroddiadau ar YOTau unigol, bydd y tîm archwilio ar cyd hefyd yn cyhoeddi adroddiadau o dro i dro ar gasgliadau ar draws nifer o dimau. Bydd adroddiadau o'r fath yn cynnwys sylwadau ar gydraddoldeb hiliol a materion amrywiaeth a gwybodaeth arall am dueddiadau. Bydd yr adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys cymariaethau rhwng perfformiad YOTau gyda nodweddion tebyg.